# Deddf Addysg (Cymru) 2014

**2014 dccc 5**

**RHAN 2**

Y GWEITHLU ADDYSG

*Swyddogaethau disgyblu'r Cyngor*

## 29 Gorchmynion cofrestru amodol

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan fo gorchymyn cofrestru amodol wedi ei wneud mewn perthynas â pherson.

(2) O ran y person—

(a) mae'n parhau yn gymwys i'w gofrestru o dan adran 9, ond

(b) rhaid iddo gydymffurfio ag unrhyw amodau sy'n berthnasol i gyflogaeth y person fel person cofrestredig a bennir yn y gorchymyn.

(3) Caiff yr amodau a bennir (ymhlith pethau eraill)—

(a) ei gwneud yn ofynnol i'r person gymryd unrhyw gamau penodedig a fydd, ym marn y Cyngor, yn helpu'r person i ddod yn berson cofrestredig medrus;

(b) ymwneud â gwariant ar ran y person.

(4) Mae unrhyw amod a bennir mewn gorchymyn cofrestru amodol i gael effaith—

(a) am unrhyw gyfnod a bennir felly, neu

(b) heb derfyn amser.

(5) Ond caiff y Cyngor, ar gais person sydd wedi cael gorchymyn cofrestru amodol, amrywio neu ddirymu unrhyw amod a bennir yn y gorchymyn.

(6) Rhaid i gais o dan is-adran (5) gael ei wneud yn unol ag unrhyw reoliadau a wneir at y diben hwnnw o dan adran 28.

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 29 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 50**

**I2** A. 29 mewn grym ar 16.1.2015 at ddibenion penodedig gan O.S. 2015/29, **ergl. 2(r)**

**I3** A. 29 mewn grym ar 1.4.2015 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2015/29, **ergl. 3(m)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg (Cymru) 2014, Adran 29.